

AAT Diploma Proffesiynol mewn Cyfrifeg Lefel 4



Yn gwyno

Mae'r Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth o fewn cyd-destun cyfrifeg ehangach. Mae'r pwnc hwn yn ymdrin â phynciau a thasgau cyfrifeg a chyllid ar lefel uchel.

Byddwch yn edrych ar ystod eang o sgiliau a chymwysiadau rheolaeth ariannol, a dod yn gyfforddus â nhw ac yn ennill sgiliau mewn: drafftio adroddiadau ariannol i gwmnïau cyfyngedig, argymhell strategaethau systemau cyfrifeg, a datblygu a chyflwyno adroddiadau cyfrifyddu rheoli cymhleth.

Byddwch hefyd yn dysgu am reoli credyd, rheoli arian a rheolaeth ariannol. Mae themâu allweddol drwy gydol y cymhwyster yn cynnwys technoleg, moeseg, cynaliadwyedd a chyfathrebu.

Os mai eich nod yw bod yn gyfrifydd, yna astudiwch gyda ni yma yn Coleg Gwent, mae gennym diwtoriaid AAT profiadol gyda phrofiad o'r diwydiant i'ch helpu i gwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dyma'r cwrs i chi os...

...rydych wedi cwblhau'r Diploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus ac eisiau parhau i adeiladu eich sgiliau cyfrifeg

...hoffech fynd ymlaen i ddod yn aelod llawn o'r AAT a/neu astudio am statws cyfrifydd siartredig

...hoffech ddechrau eich busnes eich hun trwy'r cynllun i aelodau trwyddedig AAT

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn gwella'r sgiliau a ddatblygwyd gennych yn y Diploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg, byddwch yn meithrin sgiliau cyfrifeg a chyllid proffesiynol a fydd yn ddefnyddiol drwy gydol eich gyrfa yn y maes cyfrifyddu.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys tair uned orfodol a dwy uned arbenigol. Mae'r unedau gorfodol yn cynnwys:

Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol
Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol
Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol

Yr unedau arbenigol yw:

Rheoli Arian a Rheolaeth Ariannol
Rheoli Credyd a Dyled

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg yn ddymunol.

Ar ôl dechrau'r cwrs, bydd angen i chi ymrwymo'n llawn i bresenoldeb, dangos parch at eraill, bod yn frwdfrydig ac yn hunanysgogol.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy aseiniadau ac arholiadau, a byddwch yn awyddus i barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs ar eich liwt eich hun.

Bydd disgwyl i chi gwblhau'r holl waith cartref sy'n cael ei osod ar amser.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, ac ar ôl bodloni meini prawf yr AAT, gallwch wneud cais am aelodaeth lawn o'r AAT, a fydd yn caniatáu i chi ddefnyddio'r llythrennau MAAT ar ôl eich enw.

Fodd bynnag, canlyniad sylfaenol a phwysicaf y Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yw y gall arwain at amrywiaeth eang o swyddi cyfrifeg a chyllid sy'n talu'n dda, y mae rhai ohonynt yn cynnwys:

Technegydd Cyfrifyddu Proffesiynol
Archwilydd Cynorthwyol
Cyfrifydd Rheoli Cynorthwyol
Dadansoddwr Masnachol
Rheolwr Cyflogres
Uwch Geidwad Cyfrifon
Uwch Swyddog Ariannol
Goruchwyliwr Cyfrifon Taladwy a Threuliau
Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol
Cyfrifydd Costau
Cyfrifydd Asedau Sefydlog
Rheolwr Treth Anuniongyrchol
Rheolwr Taliadau a Bilio
Uwch Gyfrifydd Cronfa
Uwch Weinyddwr Ansoffedd
Cyfrifydd TAW

Mae cwblhau'r cwrs hwn hefyd yn cynnig llwybr carlam i statws cyfrifydd siartredig gan y bydd AAT yn rhoi eithriadau hael i chi rhag holl gyrff siartredig ac ardystiedig y DU.

Gwybodaeth Ychwanegol

I astudio cwrs AAT, mae angen i chi gofrestru â'r AAT fel myfyriwr. Bydd y coleg yn talu am eich cofrestriad gyda'r AAT. Bydd angen i chi hefyd gofrestru â'r coleg.

Bydd angen i chi brynu llyfrau gwaith, a fydd yn costio tua £60.00. Bydd gofyn i chi hefyd dalu blaendal o £35.00 am lyfrau tiwtorial. Bydd eich blaendal yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd, cyn belled â bod y llyfrau'n cael eu dychwelyd mewn cyflwr da.